Dadorchuddio Carreg Goffa'r Diweddar Barchedig W. Eifion Powell



Daeth oedfa fore Sul, 5 Mehefin 2011 â llawer o atgofion melys i nifer o aelodau Eglwys Minny Street wrth i garreg goffa'r diweddar Barchedig W. Eifion Powell (1934 - 2009) gael ei dadorchuddio. Braf oedd croesawu Mrs Catherine Powell, Elin ap Hywel, Peredur Powell a'u teuluoedd yn ôl i'n plith ar gyfer yr oedfa. Bu Eifion Powell yn Weinidog ar Eglwys Minny Street am ddau gyfnod, 1984-9 a 1999-2002; a mawr fu ei ddylanwad fel bugail, ysgolhaig a chyfaill.

Anerchiad Y Parchedig Owain Llyr Evans

"Bellach, frodyr, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyfiawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn. Y pethau yr ydych wedi eu dysgu a'u derbyn, eu clywed a'u gweled, ynof fi, gwnewch y rhain; a bydd Duw'r tangnefedd gyda chwi." (Philipiaid 4: 8-9)

Geiriau gŵr yn meddalu wrth heneiddio. Ysgrifennwyd y Llythyr at eglwys a oedd yn annwyl iawn gan Paul. Wrth ysgrifennu llifai'r atgofion: ei bregethu cyntaf ar lan yr afon; Lydia yn agor ei chalon i'r Efengyl; profiad y carchar; Silas ac yntau'n gweddïo a chanu mawl i Dduw y tu ôl i ddrysau clo. Meddyliai hefyd am y rheiny a fyddai wedi bod yn gydweithwyr da, ond iddynt golli brwdfrydedd dros waith Duw. Ni fedrai chwaith anghofio'r ddwy wraig gecrus - Euodia a Syntyche (Philipiaid 4: 1-9) - a greodd gymaint o broblemau yn yr eglwys dda a hynaws hon. Er gwaethaf hyn, yn fwyn a thirion yr ysgrifenna Paul atynt nawr; yntau wedi heneiddio, ac yn llawn sylweddoli mai dyma ei ffarwel olaf. Ar derfyn ei Lythyr olaf, ac ar derfyn gwaith oes, cynghora Paul: cydiwch yn y rhinweddau mawr, daliwch eich gafael ar y pethau pwysig. Ond pa bethau? Yr hyn sydd yn wir, yn anrhydeddus, yn gyfiawn, yn bur, yn hawddgar ac yn ganmoladwy.

"...beth bynnag sydd yn wir": y gwrthwyneb i beth bynnag sydd yn ffug, yn arwynebol ac yn ymddangosiadol yw'r hyn sydd yn wir. Cynnig cydnabod beth sydd yn wir sylfaen gywir a diogel i'n bywyd; os adeiladu ar dwyll a ffug, adeiladwn ar dywod. Unplygrwydd, didwylledd, cywirdeb; hebddynt nid oes gwerth na phwrpas i ddim byd arall. Diolchwn am y bobl hynny y mae sain cloch eu byw yn gwbl eglur.

"...beth bynnag sydd yn anrhydeddus": parchedig ac urddasol. Nid oes urddas, nac anrhydedd, yn bosibl i ni heb ein bod ni'n byw, ac yn mynnu cael byw, wrth yr hyn sydd yn wir.

"...beth bynnag sydd yn gyfiawn": trefn gyfiawn yw'r drefn honno lle cyflawna pob un ei briod waith yn gywir a chydwybodol. Rhan fawr o athrylith y Parchedig Eifion Powell oedd ei reddf sicr i adnabod ei le, ac i lenwi ei le - i gyflawni ei waith fel athro, bugail a chyfaill, fel tad, tad-cu a phriod, a hynny yn gydwybodol a chywir.

"...beth bynnag sydd yn bur": y gwrthwyneb i beth bynnag sydd yn frwnt ac yn hunanol. Bryntni a hunanoldeb sy'n achosi'r helynt sydd gymaint rhan o'n byw a'n bod. Gwnawn Gristnogaeth bur yn ddelfryd. Geilw Cristnogaeth bur am ewyllys gref i wrthsefyll pob gorthrwm; gwaethaf pob gormes yw gormes hunan. Gweld, adnabod ac ildio i Iesu sy'n ein rhyddhau rhag beth bynnag sydd yn frwnt ynom, ac yn caniatáu i ni afael yn dynn yn yr hyn sydd bur a glân.

"...beth bynnag sydd yn hawddgar": dyma'r unig fan yn y Testament Newydd y digwydd y gair hwn; gair a ddefnyddiwyd yn wreiddiol ond am bersonau a phethau oedd yn haeddu'u caru. Yn Llyfr Ecclesiasticus, cynghorir offeiriad i'w wneud ei hun *"yn hawddgar i'r gynulleidfa"*; neu mewn cyfieithiad diweddarach, *"gwna dy hun yn annwyl i'r gynulleidfa"* (Ecclesiasticus 4:7). Gwyn ei fyd y Gweinidog a enillo serch a hoffter pobl ei ofal.

"...beth bynnag sydd yn ganmoladwy": geiriau harddwch a chelfyddyd yw *hawddgar* a *chanmoladwy*. Mae yna ddaioni sydd yn hyll ac mae yna wasanaeth sych-gall a diras. Byddwn wyliadwrus rhag daioni caled a salw, daioni heb farddoniaeth yn perthyn iddo a daioni sydd yn gwthio pobl oddi wrthym yn lle'u tynnu atom.

Gŵr aeddfed oedd Paul pan ysgrifennodd y geiriau uchod; aeddfedrwydd a ddaeth nid trwy astudio deddfau a gorchmynion, ond wrth adnabod Iesu Grist, a byw yn ei gwmni. Gwyddai Paul mai tyfu yw aeddfedu; tyfu yn ein hymateb i hawddgarwch Crist a dawn anhygoel ei gariad mawr. Gorau Eifion Powell oedd daioni'r Arglwydd Iesu ynddo a thrwyddo. Coffawn gan ganmol Iesu - yr hwn a fu'n Arglwydd ac yn Waredwr i Eifion, yr hwn y bu Eifion yn sôn yn dda amdano, trwy gydol ei weinidogaeth. Dyna fyddai Eifion yn ei ddymuno ac nid annerbyniol ganddo, gobeithio, fyddai'r gair rhyfedd o glod a roddodd Mark Twain (1835 – 1910) i gofiant a ysgrifennodd gwraig o'r Alban i ŵr a barchai ac a garai'n fawr: *"It is ... exquisite ... it says in every line, 'Don't look at me, look at him': and one tries to be good, and obey."*